# Polisi Amgylcheddol

| | |
|---|---|
| **Cyfeirnod Polisi** | **Pol_GCYGM_15C** |
| **Fersiwn** | **1** |
| **Dyddiad mabwysiadu / adolygiad diwethaf** | **Ebrill 2025** |
| **Dyddiad adolygiad nesaf** | **Ebrill 2028** |
| **Dogfen heb ei rheoli unwaith caiff ei hargraffu** | |

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Prif amcan Gwasanaeth Cerdd Ysgolion Gwynedd a Môn (GCYGM) yw annog gweithgarwch cerddorol yng Nghymru yn benodol trwy hyrwyddo celfyddyd mynegiannol a cherdd yng nghyd-destun dawns, drama, barddoniaeth, teledu a ffilm. Rydym yn cyflawni hyn trwy ddarparu gwersi cerdd offerynnol a lleisiol i oddeutu 5,000 o ddisgyblion gan tua 50 o diwtoriaid proffesiynol, gweinyddu ein cynllun benthyca offerynnau cerddorol a chydlynu'r ensembles rhanbarthol a sirol.

## 2. PWRPAS

2.1 Mae'r polisi hwn yn amlinellu'r mesurau sydd ar waith i leihau ôl troed amgylcheddol holl weithgareddau GCYGM, codi ymwybyddiaeth o gynaliadwyedd amgylcheddol ymhlith staff, myfyrwyr, a rhanddeiliaid ac ymgorffori arferion ecogyfeillgar wrth ddarparu addysg cerddoriaeth.

## 3. SGÔP

3.1 Mae'r polisi hwn yn berthnasol ar draws ein holl weithgareddau ac mae'n berthnasol i bawb sy'n ymwneud â GCYGM.

## 4. DATGANIAD

4.1 Mae'r GCYGM yn cydnabod bod ganddo gyfrifoldeb i'r amgylchedd y tu hwnt i ofynion cyfreithiol a rheoleiddiol. Rydym wedi ymrwymo i leihau ein heffaith amgylcheddol a gwella ein perfformiad amgylcheddol yn barhaus fel rhan annatod o'n strategaeth fusnes a'n dulliau gweithredu.

**Rydym yn ymdrechu i:**

- Cydymffurfio â'r holl ofynion rheoleiddiol perthnasol.
- Meithrin diwylliant sefydliadol o gyfrifoldeb amgylcheddol.
- Cynnwys themâu a chysyniadau amgylcheddol yn ein rhaglenni.
- Cydweithio â phartneriaid sy'n rhannu ein hymrwymiad i gynaliadwyedd amgylcheddol.
- Lleihau ein heffeithiau amgylcheddol yn barhaus.
- Monitro ein perfformiad amgylcheddol yn barhaus.

## 5. MANYLION POLISI

### 5.1 Teithio a Thrafnidiaeth:

Byddwn yn:

- Anelu at leihau'r angen i staff deithio, er enghraifft wrth gynllunio amserlenni addysgu.
- Lle bo'n briodol, hyrwyddo'r defnydd o ddewisiadau eraill sy'n osgoi teithio fel e-bost neu galwadau fideo/ffôn lle bo hynny'n bosib.
- Annog staff a defnyddwyr gwasanaeth i deithio ar drafnidiaeth gyhoeddus neu rhannu ceir wrth deithio i wersi, digwyddiadau a pherfformiadau
- Gwneud ymdrechion ychwanegol i ddiwallu anghenion y rhai sy'n defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus.

**5.2 Adnoddau**

Cyn belled ag y bo modd, byddwn yn:

- Lleihau'r defnydd o bapur drwy gyfathrebu digidol, marchnata a systemau rheoli dogfennau.
- Ailddefnyddio a/neu ailgylchu deunyddiau lle bo hynny'n bosibl (e.e. cerddoriaeth ddalen brintiedig).
- Osgoi cynhyrchion plastig untro a deunydd pacio.
- Codi ymwybyddiaeth ymhlith staff, cyfranogwyr a rhanddeiliaid am bwysigrwydd lleihau ac ailgylchu gwastraff.

**5.3 Ynni a Dŵr**

Byddwn yn ceisio:

- Lleihau'r maint o ynni rydym yn ei ddefnyddio cymaint â sy'n bosib.
- Diffodd goleuadau ac offer trydanol pan nad ydynt yn cael eu defnyddio.
- Addasu gwres gyda faint o ynni rydym yn ei ddefnyddio mewn golwg.
- Ystyried y defnydd o ynni ac effeithlonrwydd cynhyrchion newydd wrth wneud penderfyniadau prynu.

**5.4 Nwyddau swyddfa ac offer cerddorol**

Rydym wedi ymrwymo i wneud dewisiadau cynaliadwy yn ein prosesau caffael. Mae hyn yn cynnwys:

- Gwerthuso a ydyw'n bosib diwallu angen heb brynu offer newydd (er enghraifft, atgyweirio offerynnau cerdd).
- Atgyweirio, yn hytrach na disodli offerynnau cerdd lle bo hynny'n bosibl. Os nad yw atgyweirio yn hyfyw, byddwn yn ailddefnyddio ac yn ailgylchu rhannau (e.e. cesys, rhannau ceg 'mouthpieces', falfiau, tannau ayyb.).
- Ymrwymiad i leihau gwastraff drwy archebu'r hyn sydd ei angen arnom yn unig.
- Caffael cynhyrchion mwy ecogyfeillgar ac effeithlon lle bynnag y bo modd.

**5.5 Addysg ac Ymwybyddiaeth**

Byddwn yn ceisio:

- Cynnwys themâu amgylcheddol mewn rhaglenni a digwyddiadau cerddoriaeth lle bo hynny'n briodol.
- Darparu hyfforddiant ac adnoddau i staff a myfyrwyr ar faterion ac arferion amgylcheddol.

**6. Gweithredu a Monitro**

6.1 Bydd y Cyfarwyddwr Creadigol yn gyfrifol am oruchwylio a hyrwyddo'r polisi hwn.

6.2 Bydd GCYGM yn adolygu ac yn asesu arferion amgylcheddol yn rheolaidd, gan osod nodau y mae posib eu mesur ar gyfer gwella.

6.3 Byddwn yn ymgysylltu ag ysgolion, rhieni a chymunedau lleol i rannu arferion gorau a gwella effaith ar y cyd.

## 7. YMRWYMIAD I WELLIANT PARHAUS

7.1 Mae GCYGM yn addo gwerthuso ei effaith amgylcheddol yn barhaus, parhau i fod yn wybodus am strategaethau cynaliadwyedd newydd, ac addasu ei bolisi i sicrhau cynnydd parhaus tuag at gynaliadwyedd amgylcheddol.

## 8. ADOLYGIAD

8.1 Bydd y polisi hwn yn cael ei adolygu bod 3 mlynedd gan y Bwrdd, neu o ganlyniad i unrhyw newid deddfwriaethol.

Mabwysiadwyd gan Fwrdd Ymddiriedolwyr GCYGM ar y 10ed o Ebrill 2025